Annwyl Rieni,

Hoffai Bwrdd Amddiffyn Plant Lleol Caerdydd a'r Fro eich atgoffa am y risgiau sy'n wynebu'ch plentyn wrth chwarae gemau fideo sydd wedi eu creu ar gyfer oedolion.

Mae gemau a'r cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfleoedd ardderchog i blant chwarae a dysgu a threulio amser gyda ffrindiau a'r teulu.

Mae llawer o gemau fideo yn gwbl addas ar gyfer plant, ond mae astudiaethau ar effaith y trais a'r rhyw sydd yn aml yn rhan o gemau sydd wedi eu graddio'n rhai 18 oed yn dangos bod plant yn ymddwyn mewn ffordd fwy treisgar a rhywgar. Gwyddom fod plant mewn ysgolion lleol, wrth chwarae a rhyngweithio gyda phlant eraill, yn ailadrodd yr iaith a'r ymddygiad a ddysgir o gemau fideo sydd wedi eu hanelu at oedolion.

Efallai nad yw pob rhiant a gofalwr yn sylweddoli bod graddfeydd oedran yn cael eu rhoi i gemau fideo dan y system Gwybodaeth Gemau Pan-Ewropeaidd (PEGI), sy'n graddio gemau yn ôl y lefelau oedran canlynol:




Mae rhagor o wybodaeth am y graddfeydd ar wefan PEGI (gweler isod)

Mae'n anghyfreithlon i fasnachwr gyflenwi unrhyw gêm sydd â gradd oedran 12,16 neu 18 i blentyn dan yr oedran a nodir. Mae graddau oedran PEGI yn galluogi rhieni a gofalwyr i wneud dewis call wrth brynu gemau i'w plant. Fel cymorth ychwanegol i rieni a gofalwyr, bydd gemau fideo sydd wedi eu graddio dan system PEGI hefyd yn dangos gwybodaeth i egluro pam bod y gêm wedi ei graddio fel y mae.

Nid yw gemau sydd wedi eu graddio'n 18 oed yn addas i'w chwarae gan blant. Dim ond oedolion dros 18 oed ddylai eu chwarae gan fod ynddynt gynnwys sy'n anaddas i blant, yn cynnwys golygfeydd gwaedlyd, trais eithafol a dwys (arteithio, lladd cyson di-reswm a thrais tuag at bobl ddiamddiffyn), hiwmor oedolion, noethni, cynnwys rhywiol cryf, iaith gref a defnydd ar gyffuriau ac alcohol.

Efallai y bydd rhieni a gofalwyr am ystyried defnyddio adnoddau sydd ar gael am ddim ar-lein i'w helpu i benderfynu a yw gêm fideo benodol yn addas ar gyfer eu plentyn. Er enghraifft, mae Common Sense Media (https://www.commonsensemedia.org) yn

darparu *Kids Media App*, sydd ar gyfer Android, iPhone ac iPad. Mae *Kids Media App* yn helpu rhieni a gofalwyr i benderfynu

beth i ganiatáu i'w plant chwarae, gwylio a lawrlwytho. Gellir lawrlwytho'r App am ddim o https://www.commonsensemedia.org/mobile

Os ydych chi'n poeni bod eich plentyn yn gallu cael mynediad i gemau fideo anaddas, mae Bwrdd Lleol Amddiffyn Plant Caerdydd a'r Fro yn argymell gwefannau fel y canlynol, sydd oll yn cynnig cyngor ar y mater:
http://www.pegi.info/en/index/id/24
http://www.saferinternet.org.uk/advice-and-resources/parents-and-carers/parents-guide-to-technology/gaming-devices

Yn gywir





**Phil Evans**
Cadeirydd, BLlAP
Caerdydd a'r Fro

**Andy Senior**
Rheolwr Busnes BLlAP
Caerdydd a'r Fro